

Llofnodwyd y llythyr hwn gan:

Asthma + Lung UK Cymru
Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain.
Cymdeithas Ddeintyddol Prydain yng Nghymru
Cymdeithas Ddeieteg Prydain
British Liver Trust
British Society for Heart Failure
Cancer Research UK
Coleg y Parafeddygon
Cyfadran Meddygaeth Gofal Dwys
Triniaeth Deg i Fenywod Cymru
Hospice UK
Aren Cymru
Leonard Cheshire
Marie Curie Cymru
Cymdeithas Clefyd Niwronau Motor
Cymdeithas MS Cymru
Parkinson's UK Cymru
Prostate Cancer UK.
Coleg Brenhinol yr Anesthetyddion

Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys
Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu
Y Coleg Nyrsio Brenhinol
Coleg Brenhinol y Meddygon
Coleg Brenhinol y Meddygon Caeredin
Royal College of Occupational Therapists
Coleg Brenhinol Podiatreg
Coleg Brenhinol y Patholegwyr
Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac
Iaith
Coleg Brenhinol Llawfeddygon Caeredin
Coleg Brenhinol Llawfeddygon Lloegr
Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol
RNIB Cymru
Cymdeithas a Choleg y Radiograffwyr
Y Gymdeithas Strôc
Gofal Cancer Tenovus
Cynghrair Niwrolegol Cymru

17 Tachwedd 2022

Llythyr agored at Lywodraeth Cymru yn galw am ddiweddariad, gan gynnwys amserlen, ar gyhoeddi cynllun gweithredu'r gweithlu i gyd-fynd â'r rhaglen ar gyfer trawsnewid a moderneiddio gofal wedi'i gynllunio

Annwyl brif weinidog,

Fel grŵp o 36 o sefydliadau sy'n gweithio ar draws maes iechyd a gofal yng Nghymru, rydym yn gofyn i chi am ddiweddariad, gan gynnwys amserlen, ar gyhoeddi cynllun gweithredu'r gweithlu iechyd a gofal y cyfeiriwyd ato yng [nghynllun adfer gofal wedi'i gynllunio](#) Llywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2022.

Mae heriau difrifol yn ein hwynebu gyda gaeaf anodd ar ein gwarthaf. Mae'n hanfodol bod staff iechyd a gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion – ond gwyddom eu bod wedi blino ac yn gweithio dan bwysau mawr. Mae taer angen cynllun gweithredu'r gweithlu cenedlaethol tymor hir ar gyfer cynyddu nifer y staff ar draws yr holl broffesiynau ac arbenigeddau er mwyn lleihau rhestrau aros: ni ellir gorbwysleisio effaith prinder y gweithlu ar ofal cleifion gan fod [amseroedd aros yn cyrraedd y lefelau uchaf erioed yng Nghymru](#). Rhestrau canser ac amseroedd perfformiad ambiwlansys yw'r gwaethaf ar hyn o bryd, ac yn gyffredinol roedd rhifau rhestrau aros wedi pasio 750,000 am y tro cyntaf ym mis Hydref 2022.

Er mwyn darparu gofal cleifion cynaliadwy yn y tymor hir, mae angen i ni fynd i'r afael â'r her gynyddol o brinder staff ym maes iechyd a gofal – a chynllun gweithredu'r gweithlu manwl, wedi'i gyllido, yw'r cam cyntaf tuag at gyflawni hyn.

Mae'r cynllun gweithredu'r gweithlu a addawodd Llywodraeth Cymru yn gynharach eleni yn gyfle hollbwysig i nodi amrywiaeth o atebion ar gyfer recriwtio, cadw staff a chyfleoedd ymddeol er mwyn sicrhau bod gennym weithlu sy'n gallu diwallu anghenion cleifion. Er mwyn i'r cynllun hwnnw fod yn effeithiol, rhaid iddo fod yn seiliedig ar y setliad cyllido angenrheidiol a chynnwys rhagamcanion o nifer y staff sydd eu hangen i ateb y galw yn awr ac yn y dyfodol. Ni all y GIG yng Nghymru ddarparu gwerth am arian nac arloesi'n llwyddiannus a rhoi diwygiadau ar waith heb weithlu sydd â digon o adnoddau.

Gyda'i gilydd, mae ein sefydliadau nawr yn galw am gynllun gweithredu'r gweithlu cenedlaethol ar gyfer maes iechyd a gofal cymdeithasol, cynllun sy'n seiliedig ar y data diweddaraf am swyddi gwag. Yn y pen draw, mae angen i ni wybod faint o staff sydd eu hangen i gadw i fyny â'r galw gan gleifion – ond, fel y mae ar hyn o bryd, nid ydym yn gwybod maint y broblem. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r GIG yng Nghymru i gyhoeddi data am y gweithlu mewn fformat agored, tryloyw a hygyrch. Dylai'r data fod yn seiliedig ar yr hyn rydym yn ei wybod am y galw gan gleifion a chyflenwadau staff ar hyn o bryd – a'r galw tebygol yn y dyfodol - a hynny ar draws pob proffesiwn. Dylai'r llywodraeth nodi amrywiaeth o atebion tymor byr, tymor canolig a thymor hir i dyfu, hyfforddi a chadw'r gweithlu, ynghyd â darparu'r cyllid angenrheidiol.

Er bod Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) yn cyhoeddi cynlluniau addysg a hyfforddiant, nid yw hyn yn mynd i'r afael â recriwtio a chadw staff sy'n cael eu cyflogi'n lleol ac yn uniongyrchol, a staff gofal iechyd sy'n cael eu cyflogi gan y trydydd sector, nac mewn lleoliadau eraill fel cyfiawnder ac addysg. Er enghraifft, [nid yw traean o feddygon teulu yng Nghymru yn disgwyl bod yn y rôl mewn 5 mlynedd](#). Mae angen i'r math hwn o ddata fod yn rhan o gynllunio'r gweithlu ar gyfer y tymor hir.

Ar 26 Ebrill 2022, cyhoeddwyd [rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer trawsnewid a moderneiddio gofal wedi'i gynllunio a lleihau rhestrau aros](#), gydag ymrwymiad i 'ddatblygu cynllun gweithlu cydlynol a phenodol i fod yn sail i'r cynllun adfer gofal wedi'i gynllunio'

Pan ofynnwyd i chi ym mis Mai 2022 a fyddech yn ymrwymo i sicrhau bod data rheolaidd ynghylch swyddi gwag yn y sector aciwt yn cael eu cyhoeddi, fe ddywedoch [wrth y siambr](#) eich bod 'yn cyhoeddi llawer iawn o ddata am weithlu Cymru. Os oes bylchau ynddo y gellir eu llenwi'n synhwyrol, yna wrth gwrs rwy'n hapus i edrych ar y mater mae'r aelod wedi'i godi.' Yn yr un mis, dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y bydd 'data swyddi gwag GIG Cymru ar gyfer y gweithlu sy'n cael ei gyflogi'n uniongyrchol yn cael ei gasglu a'i gyhoeddi'n rheolaidd yn ystod y misoedd nesaf.'

Ar 7 Mehefin 2022 [mewn cyfweiliad wedi'i recordio](#), dywedodd Judith Paget, y cyfarwyddwr cyffredinol dros iechyd a gofal cymdeithasol, wrth Dr Olwen Williams, is-lywydd Coleg Brenhinol y Meddygon (RCP) Cymru, 'mae sicrhau bod gennym y bobl iawn, yn y niferoedd iawn, gyda'r sgiliau iawn, yn gwneud y gwaith iawn, ar yr adeg iawn, mor bwysig. Yn ystod y misoedd nesaf, byddwn yn cyhoeddi cynllun mwy manwl ar gyfer gweithlu'r GIG. Mae'n bendant ar ei ffordd.'

Ar 4 Hydref 2022, [mewn ymateb ysgrifenedig](#), dywedodd y gweinidog iechyd, 'rydym hefyd yn datblygu cynllun gweithredu'r gweithlu a fydd yn sail i strategaeth y gweithlu ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, gyda chyfres o gamau gweithredu tymor byr a thymor canolig i fynd i'r afael â blaenoriaethau uniongyrchol yn ein gweithlu', ac yn ystod [cwestiynau iechyd](#) ar 12 Hydref 2022, dywedodd y gweinidog iechyd wrth y siambr, 'mae'r galw'n cynyddu'n gyson, a dyna'r broblem. Mae gennym boblogaeth sy'n heneiddio ac felly mae'r pwysau'n fwy. Felly, mae'n bwysig i ni wneud y cynllunio strategol hwnnw ar gyfer gweithlu'r dyfodol.'

Ac eto, er gwaethaf yr addewidion niferus hyn, nid oes cynllun gweithlu cenedlaethol ar gyfer Cymru o hyd.

Dros 6 mis ar ôl lansio'r cynllun adfer gofal wedi'i gynllunio, ac wrth i ni wynebu'r hyn sy'n debygol o fod y gaeaf anoddaf yn hanes y GIG, rydym yn parhau i weithio yn y tywyllwch, heb fawr ddim data diweddar dibynadwy am y gweithlu, dim cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer recriwtio a chadw staff, dim dull safonol o gasglu data cywir am swyddi gwag ar draws byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau, dim tryloywder o ran prinder staff a bylchau mewn rota, dim ffordd o gymharu'r gwersi a ddysgwyd o ran recriwtio a chadw, a dim modd i ni wybod pryd y cawn atebion.

Nid ydym yn gwybod beth yw maint yr argyfwng gweithlu sy'n ein hwynebu.

Yn anecdotaidd, gwyddom fod staff iechyd a gofal yn cael eu llethu ac mewn perygl o orweithio, ac fel cyrff proffesiynol a sefydliadau'r trydydd sector, mae ein data ein hunain yn dangos inni fod meddygon, gweithwyr cymdeithasol, nyrsys, fferyllwyr, therapyddion a llawer o rai eraill yn wynebu gaeaf diflas.

Mae pobl go iawn y tu ôl i'r ystadegau hyn.

Dim ond 36% o swyddi meddygon ymgynghorol a hysbysebwyd yng Nghymru a gafodd eu llenwi yn 2021; mewn 71% o'r swyddi na chafodd eu llenwi, nid oedd unrhyw ymgeiswyr o gwbl. Bydd bron i hanner (44%) y meddygon ymgynghorol yng Nghymru yn cyrraedd oed ymddeol yn ystod y 10 mlynedd nesaf. Mae gan 49% o feddygon ymgynghorol yng Nghymru lwyth gwaith gormodol 'bron bob amser' neu 'y rhan fwyaf o'r amser'. Mae 45% yn dweud bod nifer o swyddi gwag ar gyfer meddygon ymgynghorol yn eu hadran. Mae dros ddwy ran o dair (68%) o feddygon dan hyfforddiant arbenigol yn dweud bod bylchau yn eu rota bob dydd neu bob wythnos. Mae gan 36% yn dweud bod ganddynt lwyth gwaith gormodol 'bron bob amser' neu 'y rhan fwyaf o'r amser'. [Coleg Brenhinol y Meddygon](#).

Mae staff podiatreg y GIG yn adrodd bod lefelau uwch o bryder, llwyth gwaith cynyddol, a straen cynyddol oherwydd absenoldebau staff (salwch, COVID hir a gwarchod). Mae nifer o staff podiatreg ar absenoldeb oherwydd straen, ac mae eraill yn cael cymorth ffurfiol ar gyfer eu hiechyd meddwl. Mae gorweithio yn effeithio'n sylweddol ar staff podiatreg. – [Coleg Brenhinol Podiatreg](#)

Mae 89% o fferyllwyr yn teimlo eu bod mewn perygl uchel o orweithio, gyda thraean yn ystyried gadael eu swyddi a'r proffesiwn. Mae 70% o fferyllwyr yn sôn am 'staff annigonol' ac mae 64% yn tynnu sylw at 'oriau hir a diffyg cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith'. – [Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol](#)

Mae un rhan o bump o weithlu'r meddygon ymgynghorol brys yng Nghymru yn bwriadu ymddeol erbyn 2027. I staffio adrannau brys yn ddiogel, dylai bod un meddyg ymgynghorol ar gyfer pob 4000 o dderbyniadau blynyddol, ond mae'r diffyg gweithlu presennol a pharhaus yn golygu mai un meddyg ymgynghorol sydd ar gyfer bron i 8000 o dderbyniadau. Mewn geiriau eraill, mae un meddyg ymgynghorol ym maes meddygaeth frys yng Nghymru yn ymgymryd â'r gwaith y dylai dau feddyg ymgynghorol ei wneud er mwyn cadw'r gwasanaeth ar ei draed. Gwyddom yn anecdotaidd fod ein staff yn profi straen gorweithio a lefelau uchel o anafiadau moesol am nad ydynt yn gallu darparu'r ansawdd gofal yr hoffent. – Y Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys

Mae adrannau radioleg glinigol ac oncoleg glinigol yn profi diffygion mawr yng Nghymru. Mae'r adran radioleg glinigol yn profi'r diffyg uchaf yn y DU. Heb gynllun gweithlu tymor hir ac ymdrechion i gadw staff, bydd y diffygion hyn yn cynyddu. Cymru sydd â'r gymhareb isaf o oncolegwyr clinigol fesul 100,000 o'r boblogaeth hyn o blith pedair gwlad y DU, a gorllewin Cymru sydd â'r gymhareb

isaf o arbenigwyr yn unrhyw le yn y DU. Mae'r ddau arbenigedd yn disgwyl i fwy nag un rhan o bump o'u meddygon ymgynghorol ymddeol yn ystod y pum mlynedd nesaf. – [Coleg Brenhinol y Radiolegwyr](#)

Mae prinder meddygon niwradiolog ymyriadol yn rhwystr mawr i ddatblygiad pellach ym maes thrombectomi yng Nghymru. Dim ond 0.7% yw canran y cleifion strôc sy'n cael triniaeth thrombectomi yng Nghymru, ond fe amcangyfrifir y byddai 10% yn gallu elwa o'r driniaeth. Yn 2020, canfu adroddiad gan y grŵp trawsbleidiol brinder staff ar draws y llwybr cymorth ar gyfer strôc, gan ddweud 'nad oes amheuaeth bod prinder staff medrus yng Nghymru yn cael effaith uniongyrchol ar y gallu i ddarparu'r gofal gorau posibl'. – [Y Gymdeithas Strôc](#)

Mae'r nifer o swyddi gwag a lefelau trosiant staff ymysg timau ym maes gwaith cymdeithasol yn uchel, ac mae hyn yn arwain at lwyth achosion sy'n llawer rhy uchel a risg uwch o orweithio sy'n effeithio ar gydbwysedd a lles bywyd a gwaith. Mae hyn, yn ei dro, wedi arwain at ostyngiad yn nifer y myfyrwyr sy'n cofrestru ar raglenni prifysgol ym maes gwaith cymdeithasol. Mae timau gweithwyr cymdeithasol rheng flaen yn llenwi dros 700 o swyddi gwag, neu 13% o swyddi gwag ym maes gofal cymdeithasol, a 10% o weithlu'r tîm gwaith cymdeithasol yng Nghymru. – [Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain](#)

Mae adrannau anesthetig yng Nghymru yn wynebu prinder cynyddol o ran staff. Mae diffyg o tua 150 o anesthetyddion (gan gynnwys meddygon ymgynghorol a meddygon SAS) yng Nghymru. Bydd y diffyg hwn yn debygol o gynyddu o ganlyniad i weithlu sy'n heneiddio, mwy o ymddeoliadau a staff yn gorweithio. – [Coleg Brenhinol yr Anesthetyddion](#)

Mae nifer y deintyddion sy'n gweithio i'r GIG [wedi gostwng bron i 8% ers 2020](#). Mae eraill yn lleihau eu hymrwymiad i waith y GIG, neu'n bwriadu lleihau. Erbyn hyn, [mae dros 4,500 o gleifion i bob deintydd cyfwerth ag amser cyflawn](#). – BDA Cymru Wales

Mae risg sylweddol o orweithio ymysg ein gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal.

Rydym nawr yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda rhanddeiliaid allanol, gan gynnwys colegau brenhinol, cyrff proffesiynol, grwpiau cleifion a'r trydydd sector i lunio cynllun gweithredu'r gweithlu manwl ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Dylai'r cynllun nodi'r canlynol:

- Dylai bob sefydliad GIG Cymru a gofal cymdeithasol ddefnyddio diffiniad safonol ar gyfer swyddi gwag.
- Nifer y swyddi gwag fesul sefydliad, a'u cyhoeddi yn ôl arbenigedd, graddfa gyrfa a phroffesiwn.
- Nifer y staff cyfwerth ag amser llawn, yn ogystal â chyfanswm y staff cyflogedig.
- Nifer y swyddi gwag sy'n cael eu llenwi gan staff asiantaeth a locwm.

Mae arnom angen camau gweithredu cenedlaethol wedi'u cydlynu i recriwtio a chadw staff iechyd a gofal. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymrwymiad clir dro ar ôl tro i weithio mewn partneriaeth â chyrrff cyhoeddus, y trydydd sector, cyrff proffesiynol a rhanddeiliaid eraill. Mae [rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer trawsnewid a moderneiddio gofal wedi'i gynllunio a lleihau rhestrau aros yng Nghymru](#) yn cydnabod bod 'sefydliadau'r trydydd sector yn parhau i chwarae rhan hollbwysig yn y maes hwn [a bydd Llywodraeth Cymru] yn cynnwys y cyhoedd yn fwy yn y gwaith o gynllunio a thrawsnewid gwasanaethau drwy gyd-gynhyrchu a chydweithredu.' Er hynny, fel grŵp o 36 o sefydliadau rhanddeiliaid ac aelodau, nid ydym yn ymwybodol o unrhyw ymgynghoriad allanol

ehangach gan Lywodraeth Cymru nac AaGIC ar ddatblygu'r cynllun gweithredu hwn ar gyfer y gweithlu a beth fydd ynddo.

Ar 1 Tachwedd, [mewn ymateb ysgrifenedig arall](#), dywedodd y gweinidog iechyd, 'Rwyf wedi ymrwymo o hyd i gyhoeddi data ynghylch swyddi gwag y GIG. Mae swyddogion wedi bod yn gweithio i ddatblygu opsiynau ar gyfer mecanwaith cadarn ar gyfer casglu a dadansoddi data... Mae grŵp gorchwyl a gorffen wedi cael ei sefydlu hefyd, gan ddod â chynrychiolwyr allweddol o fyrddau iechyd GIG Cymru, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, Addysg a Gwellu Iechyd Cymru a Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi at ei gilydd.' Nid oes unrhyw gyfeiriad at gydweithio â sefydliadau y tu allan i'r GIG a Llywodraeth Cymru a allai ddarparu gwybodaeth ac arbenigedd ar ddata a dadansoddi'r gweithlu.

Yn y pendraw, [bydd amseroedd aros hir yn y GIG](#) yn cael eu hystyried yn 'normal' oni bai fod Llywodraeth Cymru yn gweithredu ar unwaith i nodi atebion credadwy ar gyfer y gweithlu yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir. Rydym nawr yn galw arnoch chi a'ch llywodraeth i wneud cynllunio'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol yn flaenoriaeth ac i ymrwymo i gyhoeddi cynllun gweithredu'r gweithlu cyn gynted â phosibl, gan ddefnyddio'r arbenigedd a'r data sydd ar gael i chi gan randdeiliaid allanol ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

Edrychwn ymlaen at glywed gennych chi.

Llofnodwyd y llythyr hwn gan:



Coleg Brenhinol
y Meddygon (Cymru)



COLEG
BRENHINOL
LLAWFEDDYGON
CAEREDIN



ROYAL
PHARMACEUTICAL
SOCIETY
Wales Cymru



Gofal a chefnogaeth drwy salwch terfynol
Care and support through terminal illness

